Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynllun Blynyddol 2021-22

Yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein huchelgeisiau yn y tymor hwy a'n dangosyddion perfformiad allweddol

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 ac mae'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein huchelgeisiau yn y tymor hwy a'n dangosyddion perfformiad allweddol. Fe'i paratowyd ar y cyd, ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Senedd wedi gwneud darpariaeth i'w Phwyllgor Cyllid fod yn gyfrifol am ystyried ac adrodd i'r Senedd ar y Cynllun Blynyddol hwn.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn y Cynllun hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu at Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen manwl gywirdeb cyfreithiol.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a / neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Archwilio Cymru
24 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9LJ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320 500 |
| E-bost | post@archwilio.cymru |
| Gwefan | www.archwilio.cymru |
| Twitter | @WalesAudit |

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

# Cynnwys


Crynodeb o'n cynllun 4

Rhagair 6

Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud 8

Ein huchelgeisiau 11

Ein hamgylchedd gweithredu 12

Ein rhaglenni gwaith 18

Cyflwyno archwiliad 19

Cynnal y busnes 23

Mesur ac adrodd ar ein perfformiad 26


## Atodiadau


1 Gwaith archwilio lleol 30

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 31

3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol 33

4 Gwaith arfer da 35

5 Ein cyllid 36

# Crynodeb o'n cynllun

Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn nodi ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn cefnogi craffu effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol. Rydym yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

## Beth ydyn ni'n ei wneud?

**Sicrhau**

pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda

**Egluro**

sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl

**Ysbrydoli**

a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

## Beth yw ein huchelgeisiau?

Manteisio'n llawn ar ein persbectif unigryw, ein harbenigedd a dyfnder ein dirnadaeth

Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol

Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd

Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

# Sut ydyn ni'n cynllunio i gyflawni ein huchelgeisiau?



| Trwy gyflawni archwiliadau | | | Wrth gynnal y busnes |
|---|---|---|---|
| Sicrhau ein bod yn cryfhau gymaint â phosib bŵer ein dirnadaeth unigryw trwy weithio mewn tîm a rhannu gwybodaeth mewn modd mwy integredig. | Cyflwyno sylwebaeth a thystiolaeth ddibynadwy o'r materion iawn ar yr adeg iawn. | Bod â phwyslais tuag allan agored ac ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o gynulleidfaoedd. | Gan ein bod yn ffurfio barn archwilio ar eraill, gwneud yn siŵr ein bod yn arfer yn gyson yr hyn yr ydym yn ei bregethu. |
| Chwilio yn rhagweithiol am synergeddau a thueddiadau yn yr wybodaeth yr ydym yn ei chadw. | Sicrhau ein bod yn cyfleu'r ffeithiau yn glir ac yn egluro'n gryno pam ein bod wedi dod i gasgliad neu ddehongliad penodol. | Dylanwadu ar feddylfryd ac ymddygiad pobl eraill a llunio'r drafodaeth gyhoeddus ehangach. | Darparu arweiniad clir, cyson a dilys a chyflymu ein proses o wneud penderfyniadau. |
| Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ac a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'r cyhoedd ac i gyrff cyhoeddus. | Bod yn wyliadwrus ac ymateb i gyfleoedd newydd i rannu gwybodaeth a dirnadaeth archwilio lle y gall ychwanegu gwerth. | Chwilio am syniadau a ffyrdd o feddwl o'r tu allan i Gymru a'r sector cyhoeddus, a bod yn barod i'w derbyn. | Grymuso pobl ym mhob rhan o'r sefydliad i feddwl am syniadau newydd ac i sicrhau newid cadarnhaol. |

# Rhagair

## Rydym yn falch o gyflwyno ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22

## We are pleased to present our Annual Plan for 2021-22

Wrth i'r sector cyhoeddus yng Nghymru barhau i ymdrechu i fynd i'r afael ag effaith COVID-19, mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf, o ran ein gwaith archwilio a'r modd rydym yn cynnal y busnes.

Mae archwilio yn chwarae rhan hanfodol wrth roi'r wybodaeth a'r sicrwydd sydd eu hangen i'r cyhoedd, gwleidyddion, llunwyr penderfyniadau a dylanwadwyr ynghylch pa mor dda y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach yn y cyfnod eithriadol hwn wrth inni weld pwysau aruthrol ar wasanaethau cyhoeddus, lefelau uchel o risg ac ansicrwydd, a chynnydd sylweddol mewn gwariant cyhoeddus. Bydd rhaglen ein gwaith archwilio yn adlewyrchu hyn.

O'n hymgysylltiad trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld sut mae cyrff sector cyhoeddus wedi ymateb i her y pandemig. Mae cydweithwyr ar draws y sector cyhoeddus wedi mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol i gadw gwasanaethau i fynd ac i cadw pobl Cymru yn ddiogel. Ar ran Archwilio Cymru, hoffem gofnodi ein diolch a'n hedmygedd parhaus iddynt am yr ymdrech hon a'r ymrwymiad anhygoel hwn.

Mae ein hadnoddau ein hunain wedi cael eu hymestyn hefyd wrth i staff weithio'n gyfan gwbl o bell, tra'n cydbwyso effaith y pandemig a gofalu, addysgu gartref, a chyfrifoldebau eraill. Rydym yn ddyledus i holl staff Archwilio Cymru am eu proffesiynoldeb, eu gwaith caled a'u hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus trwy'r cyfnod heriol hwn. Bydd ein gwireb 'yr hunan, teulu, gwaith ... yn y drefn honno' yn parhau i ffurfio ein hymateb sefydliadol dros y 12 mis nesaf.

Er bod cyflwyno'r rhaglen frechu yn rhoi gobaith i ni am ychydig o olau ar ben draw'r twnnel, rydym yn ymwybodol bod y pwysau ar hyn o bryd yn eithafol a bod yn rhaid blaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen. Mae pwyslais Archwilio Cymru yn 2021-22 felly yn parhau i fod ar gyflawni ein cyfrifoldebau atatudol mewn ffyrdd sy'n sensitif i'r pwysau sydd ar wasanaethau. Byddwn yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd yn ein rhaglenni gwaith 2021-22 i alluogi hyn ac i ganiatáu inni ymateb i ddatblygiadau sy'n dod i'r amlwg.

Byddwn yn parhau i adolygu ein dulliau cyflawni a'n methodolegau. Wrth lunio ffordd newydd o weithio ar gyfer y dyfodol, byddwn yn adeiladu ar yr addasiadau a amlinellwyd yn ein Hadroddiad Interim diweddar, er mwyn dal a chadw rhai o'r newidiadau cadarnhaol yr ydym wedi'u gweld yn ystod y pandemig.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

# Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian sy'n cael ei bleidleisio'n flynyddol gan y Senedd. Mae elfennau sylweddol o'r cyllid hwn yn cael eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

2 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau o ran darparu adnoddau, fel staff, ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

3 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod eang o gyrff cyhoeddus, ochr yn ochr â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Gellir arfer y swyddogaethau hyn gyda'i gilydd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

4 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio tua £21 biliwn o incwm a gwariant, sydd dros chwarter Cynnyrch Domestig Gros Cymru. Yn gynyddol, rydym yn ystyried stiwardiaeth adnoddau dynol a naturiol ochr yn ochr â'n hystyriaeth o adnoddau ariannol a'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyfrif am eu defnydd.

5 Rydym hefyd yn nodi arfer da o bob rhan o'n gwaith archwilio ac yn lledaenu hyn trwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys blogiau, podlediadau a seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd.

# Beth rydyn ni’n ei wneud

**Sicrhau**
pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli’n dda


**Egluro**
sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl

**Ysbrydoli**
a grymuso’r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

6 Rydym yn ymgymryd â’n gwaith yn unol â Chod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol. Mae’r Cod yn rhagnodi’r ffordd y mae gwaith archwilio a rhai swyddogaethau eraill i fod i gael eu cyflawni ac yn ymgorffori’r hyn y mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ei ystyried yn arfer proffesiynol gorau.

7 Rydym hefyd yn gweithio’n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a chyda’r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith.

# Sut rydyn ni'n dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru[1]




1 Nid yw'r ffynonellau cyllid a amlygir yn yr arddangosyn yn cynnwys gweithgareddau cynhyrchu incwm mewn cyrff cyhoeddus unigol.

2 Maent yn cynnwys arian a dderbyniwyd o Swyddfa Cymru, Cyllid a Thollau EM, Dosbarthiad o'r Gronfa Yswiriant Gwladol mewn perthynas â Nawdd Cymdeithasol, a Chyfradd Treth Incwm Cymru.

# Ein huchelgeisiau

8 Fel y nodwyd gyntaf yn ein Cynllun Blynyddol 2019-20, rydym wedi nodi pedwar uchelgais eang ac, ar gyfer pob uchelgais, dri amcan strategol. Gyda'i gilydd, maen nhw'n disgrifio'r llwybr rydyn ni'n ei gymryd tuag at gyrraedd ein potensial llawn fel sbardun ar gyfer newid a gwelliant wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd.

### Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw

- Cryfhau natur rymus ein dealltwriaeth unigryw drwy weithio mewn tîm a rhannu gwybodaeth mewn ffordd fwy integredig.
- Chwilio'n rhagweithiol am synergeddau a thueddiadau yn y wybodaeth sydd gennym.
- Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ac a wnaiff y gwahaniaeth mwyaf i gyrff cyhoeddus a'r cyhoedd.

### Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo

- Dod â thystiolaeth a sylwebaeth ddibynadwy i'r amlwg ar y materion cywir ar yr adeg gywir.
- Sicrhau ein bod yn cyflwyno'r ffeithiau'n glir ac yn egluro'n gryno pam ein bod wedi dod i gasgliad neu ddehongliad penodol.
- Bod yn effro ac yn ymatebol i gyfleoedd newydd i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth archwilio lle gall ychwanegu gwerth.

### Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol

- Canolbwyntio tuag allan mewn ffordd amlwg ac ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Dylanwadu ar ffordd o feddwl ac ymddygiad eraill a llywio'r ddadl gyhoeddus ehangach.
- Ceisio a gwrando ar syniadau a meddyliau y tu hwnt i Gymru a'r sector cyhoeddus.

### Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

- Gan ein bod yn arddel barn archwilio ar eraill, sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn cynghori eraill i wneud.
- Darparu arweinyddiaeth glir, gyson a dilys a gwneud penderfyniadau'n gyflymach.
- Grymuso pobl drwy'r sefydliad i feddwl am syniadau newydd a gwneud newid cadarnhaol.

# Ein hamgylchedd gweithredu

9 Rydym o’r farn mai’r canlynol yw’r prif ffactorau a fydd yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn cyflawni ein huchelgeisiau, yn cyflawni ein hamcanion strategol, ac yn cyflawni ein rhaglenni gwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

## Effeithiau pandemig COVID-19

10 Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi wynebu, ac yn parhau i wynebu, heriau a phwysau digynsail yn ystod pandemig COVID-19. Trwy gydol yr argyfwng, bu’n rhaid iddynt gydbwyso sawl angen gwahanol, ond pwysig – yr angen i sicrhau gallu digonol i ddarparu gwasanaethau hanfodol; yr angen i gynnal gwasanaethau hanfodol yn ddiogel; yr angen i ddiogelu iechyd a lles eu staff; a’r angen i gynnal llywodraethu da. Er mwyn ymateb i’r anghenion hyn yn effeithiol, bu’n ofynnol i gyrff cyhoeddus gynllunio’n wahanol, gweithredu’n wahanol, rheoli eu hadnoddau’n wahanol, a llywodraethu’n wahanol.

11 Mae'r coronafeirws (COVID-19) hefyd yn effeithio'n ddramatig ar gyllid cyhoeddus a lefelau gwariant. Yn y DU, mae symiau enfawr o arian wedi’u dyrannu i wasanaethau cyhoeddus yn 2020-21 a 2021-22 i ariannu’r ymateb i COVID-19. Yn ôl ymchwil a wnaed gan Ddadansoddi Cyllid Cymru, mae gan Lywodraeth Cymru bron i £ 2 biliwn o wariant o ddydd i ddydd i ariannu ei hymateb cyllidol COVID-19 yn 2021-22, a bydd ei effaith yn ganolbwynt allweddol i’n gwaith archwilio hyd y gellir rhagweld.

12 Mae cau’r economi yn rhannol oherwydd pandemig COVID-19 wedi achosi sioc economaidd i fusnesau ac aelwydydd. Ddiwedd mis Ionawr 2021, roedd 178,000 o weithwyr ar ffyrlo yng Nghymru, sy’n cyfateb i 12% o’r gweithlu. Wrth i oriau gwaith leihau ac wrth i rai gweithwyr gael eu diswyddo, mae llawer o aelwydydd wedi gorfod dibynnu ar fudd-daliadau prawf modd am y tro cyntaf. Yn yr wyth mis hyd at fis Tachwedd 2020, cynyddodd hawliadau am Gredyd Cynhwysol sy’n cael eu talu yng Nghymru ychydig dros 50%.

13 Roedd cau ysgolion i'r rhan fwyaf o blant rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, a'r newid cysylltiedig i ddysgu o bell, hefyd yn ddigynsail. Cododd bryderon ynghylch yr effaith bosibl ar addysg a lles plant, a chredai llawer o arsylwyr y byddai plant bregus a difreintiedig, yn benodol, yn cael eu heffeithio'n andwyol.

14 Trwy gydol 2021-22, byddwn yn parhau i ail-lunio ein rhaglenni astudio gwerth am arian, yn genedlaethol ac mewn cyrff archwiliedig unigol, i gydnabod a chefnogi ymateb y sector cyhoeddus i'r pandemig, a'i adferiad ar ei ôl.

## Goblygiadau Brexit

15 Daeth y cyfnod trosglwyddo a ganiataodd i'r DU barhau i weithredu fel pe bai'n un o Aelod-wladwriaethau'r UE i ben ar 31 Rhagfyr 2020 ac mae cytundeb rhwng yr UE a'r DU bellach wedi'i gytuno. Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd ym mis Tachwedd 2020, gan nodi'r ystyriaethau allweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus wrth i'r cyfnod pontio ddod i ben ac yr oedd Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael ag ef trwy ei Chynllun Diwedd y Cyfnod Pontio.

16 Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen sy'n archwilio goblygiadau'r berthynas newydd gyda'r UE ar gyfer unigolion, cymunedau a busnesau yng Nghymru.

17 Un o oblygiadau allweddol Brexit i gyrff cyhoeddus yng Nghymru yw bod rhyddid i symud rhwng y DU a'r UE wedi dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Mae'r DU wedi cyflwyno system fewnfudo ar sail pwyntiau sy'n trin dinasyddion yr UE a dinasyddion nad ydynt yn rhan o'r UE yn gyfartal. Bellach mae angen trwydded noddwr ar gyflogwyr i logi mwyafrif y gweithwyr cymwys o'r tu allan i'r DU. Mae'r system yn darparu trefniadau hyblyg i gyflogwyr y DU recriwtio gweithwyr medrus o bob cwr o'r byd trwy sawl llwybr mewnfudo gwahanol. Mae hyn yn newid sylweddol i gyflogwyr, gan gynnwys cyrff yn y sector cyhoeddus, sy'n recriwtio o'r tu allan i'r DU.

18 Mae gwneud busnes ag Ewrop hefyd wedi newid. Mae'r DU wedi gadael y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau ac mae rheolau newydd bellach yn berthnasol. Ers 1 Ionawr 2021, mae rheolaethau wedi'u gosod ar symud nwyddau rhwng y DU a'r UE.

19 Yn ystod y cam hwn, mae'n parhau i fod yn anodd asesu ygiadau tymor hwy Brexit ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Rydym wedi ymrwymo i raglen barhaus o sylwebaeth archwilio ar y broses gymhleth a deinamig hon wrth iddi barhau i esblygu.

# Argyfwng hinsawdd

20 Rhybuddiodd adroddiad pwysig gan Banel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd, a gyhoeddwyd yn 2018, fod gennym lai na 12 mlynedd i osgoi chwalfa hinsoddol. Yn ei Adroddiad, nododd y Panel fod angen newidiadau brys a digynsail i osgoi cynhesu trychinebus.

21 Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yng Nghymru ac ym mis Chwefror 2021 ymrwymodd i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050. Fel targed dros dro, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau allyriadau 63% erbyn 2030. Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd[3] (CCC) annibynnol yn ystyried bod y gweithredu cynnar hwn yn hanfodol i gefnogi'r cynnydd gofynnol mewn uchelgais fyd-eang, yn enwedig cyn i'r DU gynnal sgyrsiau hinsawdd nesaf y Cenhedloedd Unedig (COP26)[4] yn Glasgow ym mis Tachwedd.

22 Er mwyn cefnogi cyflawni'r targedau, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun cyflawni carbon isel diwygiedig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi ei bwriad i bob corff cyhoeddus yng Nghymru fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030, y mae awdurdodau lleol wedi ymuno ag ef ar y cyd trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae mwyafrif y cynghorau yng Nghymru bellach wedi datgan argyfwng hinsawdd ac yn datblygu cynlluniau gweithredu carbon neu wedi eu sefydlu. Rydym yn rhagweld arweiniad gan Lywodraeth Cymru yn fuan ar feysydd blaenoriaeth y sector cyhoeddus ac adrodd arnynt.

23 Rydym yn monitro datblygiadau yn agos ac yn cynllunio rhaglen barhaus o sylwebaeth archwilio ar gamau gan y sector cyhoeddus i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn cynnwys dechrau gweithio ar offeryn data ac adolygiad sylfaenol o gamau gweithredu ar draws y sector cyhoeddus yn ystod 2021-22.

3 Corff statudol annibynnol a sefydlwyd i gynghori'r DU a llywodraethau datganoledig ar dargedau allyriadau ac i adrodd i'r Senedd ar y cynnydd a wnaed o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a pharatoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt.

4 26ain Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd.

# Ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy

24 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi uchelgais feiddgar ar gyfer dyfodol gwasanaethau cyhoeddus ac yn annog newid eang mewn diwylliant ac ymarfer. O dan y Ddeddf, mae'n ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus rhestredig i roi datblygu cynaliadwy (diwallu anghenion y presennol, heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain) wrth wraidd yr hyn a wnânt. Rhaid iddynt weithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy osod a chyhoeddi amcanion llesiant a gweithredu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion hynny.

25 Wrth wneud hynny, rhaid i'r cyrff hynny ystyried pwysigrwydd y 'pum dull o weithio': cydbwyso anghenion tymor byr a thymor hir; cymryd agwedd fwy integredig a chyfannol; cynnwys pobl eraill sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth; gweithreud ar y cyd; a chymryd agwedd ragweithiol ac ataliol tuag at ddatrys problemau.

26 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried i ba raddau y mae'r cyrff cyhoeddus rhestredig wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant, ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny[5]. Ym mis Mai 2020, gwnaethom gyhoeddi adroddiad cenedlaethol yn crynhoi'r themâu a'r tueddiadau cyffredin a nodwyd trwy'r gwaith hwn hyd at y pwynt hwnnw. Yn gyffredinol, canfuom er bod cyrff cyhoeddus yn gallu dangos eu bod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ei bod yn amlwg bod yn rhaid iddynt wella sut y maent yn cymhwyso pob un o'r 'pum ffordd o weithio' os ydynt yn mynd i sicrhau newid diwylliannol gwirioneddol a chadarnhaol.

27 Yna, ddiwedd 2020, gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn gwahodd barn ar ein cynigion ar gyfer cyflawni ein gwaith yn y maes hwn dros yr ail gyfnod adrodd, 2020 i 2025. Rydym yn cynnig:

- parhau i gynnal archwiliadau penodol i asesu gosod amcanion llesiant a'r camau sy'n cael eu cymryd i'w cyflawni;
- integreiddio'r gwaith hwn gyda'n harchwiliadau a'n hastudiaethau gwerth am arian a'n gwaith archwilio lleol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl; a
- chryfhau ac ehangu cydgysylltiad ein gwaith â gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

28 Yn dilyn hynny, mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd wedi cyhoeddi canlyniadau ymchwiliad i rwystrau i weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus. Un o'r prif gasgliadau a dynnwyd gan y Pwyllgor yw nad yw cyrff cyhoeddus Cymru wedi gwneud digon eto i newid diwylliant eu sefydliadau eu hunain i alinio ag egwyddorion y Ddeddf.

5 Mae ein hadroddiadau ar y camau y mae cyrff unigol yn eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant ar gael trwy adran gyhoeddiadau ein gwefan.

29 O fewn corff yr Adroddiad, nododd y Pwyllgor hefyd ‘Rydym yn gwerthfawrogi bod cynnal archwiliadau o dan y Ddeddf hon yn rôl newydd i archwilwyr y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, wrth i’r sector cyhoeddus geisio ailadeiladu yn sgil COVID-19, rydym yn annog yr Archwilydd Cyffredinol i godi ei ddisgwyliadau o gyrff cyhoeddus. Mae eu cynnydd ar y cyd hyd yma wedi bod yn rhy araf. Ni allwn fforddio i hynny barhau.’

## Heriau economaidd-gymdeithasol

30 Mae ymchwil diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree yn tynnu sylw at y ffaith nad yw cyfran gyffredinol y bobl sydd mewn tlodi yng Nghymru wedi newid yn ystod y degawd diwethaf, er bod mynd i’r afael â thlodi yn flaenoriaeth Llywodraeth Cymru, a rhagwelir y bydd yn cynyddu’n sydyn pan deimlir effaith lawn y pandemig. . Ar y cyfan, amcangyfrifir bod un o bob pedwar o bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi ar hyn o bryd.

31 Mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, yn canolbwyntio ar hyrwyddo ffyniant economaidd er mwyn helpu i fynd i’r afael ag achosion sylfaenol tlodi yng Nghymru. Mae llawer o’r camau a gynigir yn y strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill weithio mewn ffordd lawer mwy cydweithredol ac integredig wrth ddylunio a gweithredu atebion ar gyfer y dyfodol.

32 Mae deddfwriaeth ddiweddar, megis Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Camfanteisio Rhywiol 2015, yn cydnabod pa mor bwysig yw hi bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda’i gilydd i fynd i’r afael ag anghenion cymhleth. Fodd bynnag, mae ein hadroddiad diweddaraf ar gysgu allan yng Nghymru, Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb, yn tynnu sylw, bod mynd i’r afael ag anghenion cymhleth yn parhau i fod yn ystyfnig o anodd, er gwaethaf deddfwriaeth a blaenoriaethu cyllid. Mae arian cyhoeddus yn parhau i gael ei wastraffu oherwydd bod ymatebion yn parhau i gael eu hynysu ac mae llawer mwy o waith i’w wneud o hyd.

33 Yn ogystal, yn ei adroddiad yn 2018, A Yw Cymru’n Decach? daeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i’r casgliad, y darperir tystiolaeth bod anghydraddoldeb hiliol a heriau i ddiogelwch menywod a dilyniant gyrfa yn parhau yng Nghymru, bod pobl anabl yn cwympo ymhellach ar ei hôl hi, a bod dyfnhau tlodi yn arwain at anghydraddoldebau mwy amlwg ym mhrofiadau a chyfleoedd pobl a anwyd i wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol. Ym mis Mawrth 2021, gosododd Llywodraeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus rhestredig i ystyried yr angen i leihau’r anghydraddoldebau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

34 Byddwn yn parhau i flaenoriaethu gwaith archwilio sy'n ystyried sut mae cyrff cyhoeddus yn ymateb i heriau economaidd-gymdeithasol i helpu i sbarduno gwelliant pellach yn y maes hwn.

## Cymdeithas sy'n cael ei rhwydweithio'n gynyddol

35 Mae datblygiadau mewn technoleg yn parhau i yrru mwy o ddigideiddio gwasanaethau, mynediad cyhoeddus at ddata, a chyfleoedd i ryngweithio ac ymgysylltu trwy'r cyfryngau cymdeithasol a mathau eraill o gyfathrebu digidol. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Strategaeth Ddigidol i Gymru, sy'n canolbwyntio ar gysylltedd digidol, cynhwysiant, gwasanaethau, yr economi a sgiliau, ac ar ddata a chydweithio.

36 Mae datblygiadau pwysig eraill wedi gweld y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn cael ei chreu, gyda chylch gwaith i gefnogi gwelliant trwy ddod â gweision cyhoeddus ac arbenigwyr trawsnewid digidol ynghyd, a phenodi Prif Swyddogion Digidol newydd yn Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae yna gynlluniau hefyd ar gyfer rôl Prif Swyddog Digidol newydd i'r GIG yng Nghymru.

37 Mae gan Gymru nodweddion topograffi a dwysedd poblogaeth penodol sy'n gosod heriau wrth ddarparu signal ffonau symudol a seilwaith digidol. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ganlyniadau ei Adolygiad o seilwaith cyfathrebu digidol yng Nghymru. Ar y cyfan, heblaw am raglen Superfast Cymru, daeth y Comisiwn i'r casgliad bod polisi cyfathrebu digidol Cymru wedi cwympo y tu ôl i Loegr a'r Alban ers 2017. Adroddodd y Comisiwn fod angen i Lywodraeth Cymru ddod yn fwy pendant a gweithredu'n gyflymach os yw'r tueddiadau hyn i gael eu gwrthdroi a gwnaethant gyfres o argymhellion cysylltiedig gyda'r nod o gau'r bwlch.

38 Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r Comisiwn, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â rhywfaint o waith archwilio gan edrych ar y seilwaith band eang yng Nghymru. Eleni, bydd ein harchwiliad cyntaf o'r awdurdod iechyd arbennig sydd newydd ei ffurfio, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a byddwn hefyd yn ystyried y camau nesaf ar gyfer gwella effeithiau ein gwaith diweddar ar Seibergadernid, a Chyrchu Mewnol Gwasanaeth TGCh Llywodraeth Cymru. Mae penodi Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid newydd yn Archwilio Cymru yn ddiweddar yn ychwanegu momentwm pellach i'n rhaglen newid digidol.

# Ein rhaglenni gwaith

39 Gellir rhannu ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn fras yn ddwy adran – cyflawni archwiliad a chynnal y busnes.

40 Mae'r adran gyntaf ar ddarparu archwiliad yn cynnwys rhaglen waith a blaenoriaethau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2021-22 wrth arfer ei swyddogaethau. Mae'r ail adran ar gynnal y busnes yn crynhoi'r rhaglen waith a blaenoriaethau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2021-22 wrth arfer ei swyddogaethau.

41 Ar gyfer pob adran, nodwyd rhai meysydd ffocws ar gyfer gwaith ychwanegol a fydd yn ein cefnogi i gyflawni ein huchelgeisiau a'n hamcanion strategol dros y flwyddyn i ddod. Bydd y cynnydd a wneir tuag at gyflawni ein hamcanion strategol, gan gynnwys ym mhob un o'r meysydd ffocws hyn, yn cael ei arwain gan ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'i fonitro'n agos gan ein Bwrdd.

42 Mae'r adnoddau sydd ar gael, ac a allai fod ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol, yn unol â'r Amcangyfrif o Incwm a Threuliau cymeradwy ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, i'w defnyddio wrth gyflawni'r rhaglenni gwaith hyn.

# Cyflwyno archwiliad

## Gwaith craidd



Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800** o gyrff cyhoeddus




Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**




Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i **£1.5 biliwn**



Cymeradwyo tua **£1 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis



**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd



Rhannu'r **arfer da** a welwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru



Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll a gwall** drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol



Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

Am ragor o wybodaeth gweler:

Atodiad 1 – Gwaith archwilio lleol

Atodiad 2 – Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Atodiad 3 – Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

Atodiad 4 – Gwaith arfer da

43 Ochr yn ochr â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol, mae pedair egwyddor a gydnabyddir yn eang yn sail i'r modd yr ydym yn cyflawni'r gwaith archwilio:

**Y pwyslais cyhoeddus**

Cynhelir archwiliad ar ran y cyhoedd ac fe'i gwneir er budd y cyhoedd

**Atebol**

Caiff archwilwyr y sector cyhoeddus eu hariannu'n gyhoeddus ac maent yn atebol am eu defnydd o arian cyhoeddus

**Annibynnol**

Mae'n rhaid i archwiliadau fod, ac ymddangos, yn annibynnol, wrth iddynt gael eu cynnal mewn ffordd sy'n wrthrychol ac yn ddiduedd

**Cymesur**

Mae angen rhoi digon o le i ddarparwyr gwasanaethau ddarparu gwasanaethau o safon uchel, wrth fod yn destun lefelau craffu digonol, ond nid gormodol

44 Mae'r gwaith archwilio a wnawn mewn cyrff cyhoeddus unigol yn cynnwys:

- rhoi barn ar y cyfrifon;
- ystyried sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy (rheoleidd-dra);
- ystyried sut mae busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal (priodoldeb);
- archwilio a oes trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian a gwelliant parhaus; ac
- asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion lles.

45 Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU trwy'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, a chyda'n cydweithwyr yn y prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd archwilio cyhoeddus ac effaith gyfunol ein gwaith. Rydym yn falch o gynrychioli Cymru ar adegau ar y llwyfan archwilio rhyngwladol, gan gynnwys yn EURORAI[6].

46 Gallwn hefyd drefnu gyda rhai mathau o gyrff, yn y DU a thramor, i wneud gwaith wedi'i gomisiynu[7]. Mae hyn yn cynnwys archwilio tua £110 miliwn o arian a ddefnyddir i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru[8] a gweithredu fel Prif Archwilydd i Lywodraeth Anguilla, ac archwilio'r cyfrifon.

47 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac i'n helpu i gyflawni ein hamcanion strategol, rydym wedi nodi naw maes ffocws ar gyfer cyflawni ein gwaith archwilio yn 2021-22.

6 Mae Sefydliad Ewropeaidd Sefydliadau Archwilio Cyllid Cyhoeddus Allanol Rhanbarthol (EURORAI) yn brosiect cydweithredu ymhlith sefydliadau archwilio'r sector cyhoeddus ledled Ewrop.

7 Lle rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyrff hynny, neu'n arfer swyddogaethau'r cyrff hynny. Rydym yn ymwybodol y dylai pob gweithgaredd o'r fath fod yn hunangyllidol ac na ddylid eu cyflawni ar draul ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

8 Ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

| Meysydd ffocws ar gyfer cyflawni archwiliad |
|---|
| Cyflwyno rhaglen o waith archwilio perthnasol ac amserol sy'n cydnabod ac yn cydymdeimlo â'r pwysau y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu yn eu hymateb parhaus i'r pandemig coronafeirws, a'r adferiad ohono. |
| Rhoi pwyslais arbennig ar bwysigrwydd rheolaeth ariannol gadarn a llywodraethu da ar draws y sector cyhoeddus, yng ngoleuni'r risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â gwariant cyhoeddus yn ystod y pandemig. |
| Datblygu dull symlach ar gyfer archwilio sut mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion lles ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. |
| Sicrhau bod datblygiad ein dull archwilio yn cadw i fyny â newidiadau mewn arfer proffesiynol gorau, yn manteisio'n llawn ar ddatblygiadau mewn technoleg ac yn darparu archwiliadau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ein rhanddeiliaid. |
| Mireinio pob agwedd ar y ffordd yr ydym yn casglu, dadansoddi a chyflwyno data, gan gynnwys trwy gyrchu cyfansymiau mwy yn fwy rheolaidd, mwy o ddefnydd o awtomeiddio, a gwell dulliau o ddelweddu ac adrodd straeon. |
| Gwella sut rydyn ni'n cyfathrebu ein gwaith archwilio i gael mwy o effaith, gan gynnwys trwy ehangu ystod a chyrhaeddiad y sianeli rydyn ni'n eu defnyddio, a'r sgiliau rydym yn eu meithrin yn ein staff. |
| Ymgysylltu'n rhagweithiol â'r Senedd yn dilyn etholiadau mis Mai ac adnewyddu ein perthynas ag aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd a phwyllgorau eraill i godi ymwybyddiaeth o'n rhaglenni gwaith, a gofyn eu barn amdanynt. |
| Datblygu ar wersi o'n Prosiect Dysgu COVID i wella'r ffordd yr ydym yn rhannu arfer da, gan brif ffrydio dulliau newydd o ddysgu yn barhaus a chryfhau cefnogaeth ar gyfer cyflwyno archwiliadau. |
| Datblygu ystod fwy amrywiol ac effeithiol o fecanweithiau ar gyfer cael barn ein rhanddeiliaid am werth ac effaith ein gwaith. |

# Cynnal y busnes

## Gwaith craidd




Pennu'r gyllideb gyffredinol o **£22 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio



Cyflogi tua **275 o staff** a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth



Darparu **arweinyddiaeth gadarn** ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau



**Monitro'r** modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo


Am ragor o wybodaeth gweler:
Atodiad 5 – Ein Cyllid

48 Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am osod a goruchwylio cyfeiriad strategol y sefydliad a sicrhau ein bod ar y trywydd iawn wrth gyflawni ein huchelgeisiau. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol, ochr yn ochr â dau aelod a etholir gan y gweithwyr sy'n rhoi dimensiwn ychwanegol sef mewnwelediad a phrofiad.

49 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, sy'n cael ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn ei gynghori yn rhinwedd ei swydd fel Archwilydd Cyffredinol, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu. Bydd aelodaeth a chylch gorchwyl y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn cael eu diweddaru eleni yn dilyn ailstrwythuro'r uwch dîm a phenodi tri Chyfarwyddwr Gweithredol newydd yn ddiweddar.

50 Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach am ein trefniadau llywodraethu yn adran Datganiad Llywodraethu ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon.

# Cyd-ddibyniaethau rhwng ein Cynllun Blynyddol a chynlluniau a strategaethau mewnol allweddol eraill ar gyfer cynnal y busnes




51 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac i'n helpu i gyflawni ein hamcanion strategol, rydym wedi nodi chwe maes ffocws ar gyfer cynnal y busnes yn 2021-22.

| Meysydd ffocws ar gyfer cynnal y busnes |
|---|
| Blaenoriaethu rhoi cefnogaeth barhaus i iechyd a lles staff Archwilio Cymru wrth inni symud o 'ymateb' i ddull 'adfer' o ran pandemig COVID-19. |
| Cynnal adolygiad o'r amcanion cydraddoldeb a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn cyd-fynd yn llawn â'n huchelgeisiau sefydliadol cyffredinol. |
| Cryfhau’r uwch arweinyddiaeth trwy ddatblygu perthnasoedd gwaith gwell rhwng y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol sydd newydd ei ffurfio. |
| Cwblhau ein gwaith ar ddatblygu cynigion ar gyfer diwallu ein hanghenion llety yn y dyfodol, er mwyn i’r Bwrdd allu gwneud penderfyniad yn 2022-23. |
| Ymgorffori’r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau mwy yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys wrth:<br>• ymgymryd ag adolygiad o’n trefniadau teithio a chynhaliaeth staff;<br>• arbrofi gyda ffyrdd newydd, mwy effeithlon a doethach o weithio; a’u gwerthuso; a<br>• phennu ein map llwybr ar gyfer symud tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net. |
| Moderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio, gan gynnwys trwy wneud gwell defnydd o dechnoleg ddigidol i'n galluogi i fod yn fwy ystwyth ac yn fwy parod i addasu mewn amgylchedd sy'n esblygu. |

# Mesur ac adrodd ar ein perfformiad

52 Yn 2021-22, byddwn yn parhau i ddefnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur, adrodd ar a myfyrio ar ein perfformiad, gwerth am arian a risgiau. Mae hyn yn cynnwys adrodd yn rheolaidd i'n Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'n Bwrdd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion strategol a chyflawni ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol (DPA). Bydd hefyd yn cynnwys adroddiadau archwilio mewnol i'n Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

53 Ar gyfer pob un o'n rhaglenni gwaith, rydym wedi nodi cyfres o DPA lefel uchel a fydd yn ein helpu i fesur y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol. Byddwn yn rhoi pwyslais ar werthuso cyfeiriad ein teithio a chyflymder y gwelliant, ochr yn ochr â chymharu â meincnodi priodol.

54 Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad yn allanol trwy ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon a'n Hadroddiad Dros Dro, a thrwy ddarparu tystiolaeth yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Senedd. Dylid nodi bod ein DPA yn is-set o gyfres ehangach o ddangosyddion perfformiad gweithredol a chorfforaethol, yr adroddir ynghylch llawer ohonynt yn allanol hefyd yn ein Hadroddiadau Blynyddol a'n Cyfrifon a chyhoeddiadau corfforaethol eraill.

55 Wrth baratoi'r Cynllun hwn, gwnaethom adolygu ein targedau DPA gan gyfeirio at lefelau perfformiad cyfredol a meincnodau allanol priodol, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n huchelgeisiau cyffredinol.

56 Yn ystod 2021, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad pellach o'n cyfres o DPA, fel rhan o asesiad ehangach o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol 2019-20. Bydd yr asesiad hwn yn helpu i fod yn sail ar gyfer ein Cynllun Blynyddol 2022-23 ac yn egluro ein gweledigaeth strategol ar gyfer Archwilio Cymru am y pum mlynedd nesaf.

# DPA cyflenwi archwiliadau

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| 1 | Dyddiadau cau statudol | Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd erbyn y dyddiad cau statudol gofynnol. | 100% |
| 2 | Mewn pryd | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen a gynlluniwyd ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol. | 90% |
| 3 | Ansawdd | Cyfran yr archwiliadau adolygedig a gyflwynwyd yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). | Aseswyd 100% o'r sampl yn foddhaol neu'n uwch, a 90% yn dda neu'n uwch[9] |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ystyried ein bod yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. | O leiaf 90% |
| 5 | Darparu mewnwelediad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod trwy ein gwaith wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall. | O leiaf 80% |
| 6 | Gyrru gwelliant yn ei flaen | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. | O leiaf 80% |
| 7 | Arbedion wedi'u nodi | Gwerth arbedion posibl, incwm, enillion o ran cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd trwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2019-2022 |
| 8 | Digwyddiadau arfer da | Cyfran y rhanddeiliaid a raddiodd ein digwyddiadau arfer da yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. | O leiaf 90% |
| 9 | Ymweliadau â'r wefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan lle cyflawnwyd o leiaf un weithred, ee lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | 35,000 bob blwyddyn |
| 10 | Cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymrwymiadau cyfryngau cymdeithasol, hy rhyngweithio â'n postiadau fel hoffi, rhoi sylw, neu ail-drydar / rhannu. | 3,000 bob blwyddyn |
| 11 | Rhannu dysgu am archwilio | Nifer yr achosion lle rydym yn cyflwyno dysgu am archwilio i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol. | 50 bob blwyddyn |

9 Lle mae 'da' yn cyfateb i gategori ansawdd archwilio FRC 2A, a 'boddhaol' yn cyfateb i gategori 2B.

# Cynnal Dangosyddion Perfformiad Allweddol y busnes

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| 12 | Ymgysylltu â gweithwyr | Canran sgôr positif mynegai ymgysylltu'r arolwg staff blynyddol (wedi'i alinio â sgôr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil). | O leiaf sgôr y 10% uchaf ar gyfer y CSPS diweddaraf |
| 13 | Profiad y gweithiwr | Canran sgoriau positif profiad thematig y gweithwyr yn arolwg blynyddol[10] y staff. | O leiaf y 25% uchaf o sgoriau ar gyfer y CSPS diweddaraf |
| 14 | Absenoldeb salwch | Diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gollwyd fesul aelod staff y flwyddyn. | Llai na chwe diwrnod |
| 15 | Balans ariannol | Lefel yr amrywiant mewn incwm gros a gwariant o'r hyn a nodwyd yn ein hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol. | O fewn 2% i'r gyllideb |
| 16 | Arbedion costau ac effeithlonrwydd | Gwerth arbedion costau ac effeithlonrwydd a nodwyd drwy'r busnes. | £1.3 miliwn |
| 17 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau cyfwerth â $CO_2$ o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o ddefnyddio trydan a brynwyd, ac a gynhyrchir yn anuniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgareddau. | 300 tunnell[11] |
| 18 | Cyfradd llwyddiant hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo'r tro cyntaf yn eu harholiadau lefel Proffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. | O leiaf 90% |

10 Themâu allweddol profiad gweithwyr CSPS yw: amcanion a phwrpas sefydliadol; arwain a rheoli newid; diwylliant sefydliadol; fy rheolwr; fy ngwaith; fy nhîm; cynhwysiant a thriniaeth deg; dysgu a datblygu; adnoddau a llwyth gwaith; tâl a buddion; a gweithredu.

11 Bydd pa mor gyflym y mae Llywodraeth Cymru yn codi cyfyngiadau COVID-19 yn cael effaith ar ein perfformiad yn erbyn y targed hwn, er gwaethaf ein hymdrechion i leihau ein hallyriadau mewn sawl ffordd, gan gynnwys osgoi teithio busnes diangen.

# Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

4 Gwaith arfer da

5 Ein cyllid

# 1 Gwaith archwilio lleol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith lleol yn y mwyafrif o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[12] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Comisiwn y Senedd | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[13] |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 4 cwmni Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 8 Comisiynydd, Arolygwyr a Rheoleiddwyr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Ymddiriedolaeth GIG a 2 Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[14] |
| 22 Cyngor (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabliaid | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa Bensiwn | ✓ | | |
| Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a Bargeinion Dinesig | ✓ | ✓ | |
| Sawl corff llywodraeth leol llai gan gynnwys Cyd-bwyllgorau, Ardaloedd Draenio ac Awdurdodau Harbwr. | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[15] | | |

12 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Ar hyn o bryd mae gwaith archwilio perfformiad a gynhelir yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

13 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

14 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

15 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.

# 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae’r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno o ganfyddiadau o waith archwilio lleol ar draws sawl corff GIG, llywodraeth ganolog a /neu gyrff llywodraeth leol.

Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion o bryder cyhoeddus a nodwyd trwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda’r Archwilydd Cyffredinol trwy ohebiaeth. Mae’r allbynnau o lawer o’r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd a phwyllgorau eraill y Senedd.

Yn 2021-22, byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau yn gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy’n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys cadw rhywfaint o hyblygrwydd fel y gallwn ymateb i ddatblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru a meysydd o ddiddordeb posibl i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd yn dilyn etholiadau’r Senedd.

## Gwaith sydd eisoes ar y gweill

- Caffael a Chyflenwi CDP ar gyfer y Pandemig COVID-19
- Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol
- Gofal heb ei drefnu, offeryn data
- Gweinyddu cyllid myfyrwyr
- Rhaglen cartrefi cynnes - Arbed a Nest
- Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru
- Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus
- Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol
- Gwydnwch ariannol llywodraeth leol
- Yn Ôl Eich Disgresiwn – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol
- Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru
- Diwygio'r cwricwlwm
- Rhaglen frechu yn erbyn COVID-19
- Adfywio Canol Trefi
- Taliadau uniongyrchol
- Cydweithrediad y gwasanaethau brys
- Gwasanaethau orthopedig
- Gweithlu Llywodraeth Cymru
- Cynorthwyo llesiant staff y GIG

## Gwaith newydd yr ydym yn bwriadu ei ddatblygu yn 2021-22

- Anghenion cymhleth a thlodi - yr her i lywodraeth leol
- Mentrau cymdeithasol
- Gofal heb ei drefnu - adolygiad o'r system gyfan
- Rheoli risg llifogydd
- Ymateb i COVID-19 a'r adferiad
- Sylwebaeth ar gyfrifon Llywodraeth Cymru
- Pobl yn cysgu allan - dilyniant
- Adeiladu gwytnwch cymunedol a hunanddibyniaeth
- Asesiad Strwythuredig - sylwebaeth gryno
- Tai Fforddiadwy
- Seilwaith band eang
- Newid yn yr hinsawdd
- Llywodraeth Cymru yn gosod amcanion lles

# 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Senedd

Mae ein gwaith yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth iddo ystyried y defnydd o adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall ein gwaith hefyd, lle bo hynny'n berthnasol, fod yn sail i waith pwyllgorau eraill y Senedd y mae eu cylch gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.

Yn 2021-22 byddwn yn darparu sesiynau briffio rheolaidd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gynnwys adroddiadau cyhoeddedig yr Archwilydd Cyffredinol, a fydd yn helpu'r Pwyllgor i benderfynu ar ei gamau gweithredu dilynol. Byddwn hefyd yn rhoi cyngor a chefnogaeth bellach i'r Pwyllgor yn ôl yr angen, yn enwedig mewn perthynas â:

- datblygu sesiynau briffio aelodau ar gyfer sesiynau tystiolaeth gyda thystion o Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill;
- datblygu adroddiad y Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw adroddiadau etifeddol; a
- digonolrwydd ymatebion ffurfiol Llywodraeth Cymru i argymhellion yn adroddiadau'r Pwyllgor.

Yn dilyn etholiadau'r Senedd, byddwn yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd a Phwyllgorau eraill y Senedd i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith, gofyn barn am ein cynigion ar gyfer rhaglenni gwaith yn y dyfodol, a chefnogi eu swyddogaethau craffu.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Mae’r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn gyflym i addasu i heriau’r sefyllfa bresennol ar gyfer gweithredu pwyllgorau ac erbyn hyn y ‘norm newydd’ i ni yw mynychu eu cyfarfodydd gan ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu fideo.

Trwy gydol y flwyddyn, byddwn yn mynychu mwyafrif cyfarfodydd pwyllgorau archwilio’r prif gyrff yr ydym yn eu harchwilio i ddarparu sesiynau briffio rheolaidd ac adrodd ar ein gwaith archwilio.

Byddwn hefyd yn rhoi cyngor a chefnogaeth bellach i bwyllgorau archwilio a chraffu, lle bo hynny’n berthnasol, yn enwedig mewn perthynas â:

- darparu cefnogaeth a chanllawiau i gadeiryddion pwyllgorau i’w cefnogi i fod yn fwy effeithiol yn eu rôl; a
- darparu cyfleoedd dysgu am arfer da a sesiynau codi ymwybyddiaeth i aelodau’r pwyllgor ar faterion arbennig o berthnasol.

## Cefnogi’r cyhoedd a’u cynrychiolwyr lleol

Rydym yn derbyn gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy’n codi pryderon posibl ynghylch stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ‘berson rhagnodedig’ ar gyfer derbyn datgeliadau chwythu’r chwiban ynghylch cynnal busnes cyhoeddus yn briodol a thwyll, gwerth am arian a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn 2021-22, byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn:

- ymateb i bryderon o’r fath yn brydlon ac mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol;
- gwerthfawrogi pwysigrwydd y materion i’r rhai sydd wedi rhoi amser i dynnu sylw atynt;
- cyhoeddi adroddiadau archwilio lle rydym o’r farn bod y rhain yn haeddiannol; ac yn
- gwneud yn siŵr nad ydym yn defnyddio arian cyhoeddus yn edrych ar faterion nad ydynt yn berthnasol i’n gwaith archwilio nac yn treulio gormod o amser ar fân faterion.

# 4 Gwaith yn ymwneud ag arfer da

Yn draddodiadol, ffocws allweddol ein rhaglen arfer da fu cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb lle mae'r hyn a rennir o'n gwaith archwilio yn cael ei rannu. Mae hyn yn arwain at sgyrsiau, deialog a thrafodaeth gyfoethog ymhlith darparwyr gwasanaeth ar draws y sector cyhoeddus.

Mae hyn wedi golygu cynnwys cyfraniadau gan gyrff ymchwil, y byd academaidd, arbenigwyr byd-eang, a dylanwadwyr o'r tu allan i'r sector cyhoeddus.

Fodd bynnag, ers gweithredu cyfyngiadau COVID-19, bu'n rhaid newid agwedd at ein gwaith arfer da, sy'n ystyried, ac sy'n fwy ymatebol i'r amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

Yn 2020-21, newidiodd ffocws ein gwaith ar arfer da at gyflwyno prosiect dysgu COVID. Drwy'r prosiect hwn casglodd ein staff arfer newydd a gwahanol wrth iddo ymddangos a chafodd ei ddadansoddi'n gyflym i dynnu sylw at bwyntiau dysgu perthnasol. Buom yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau cyhoeddus ac ochr yn ochr â'n timau archwilio o'r cychwyn cyntaf i sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fod yn berthnasol, yn amserol ac yn hygyrch.

Yna fe wnaethom rannu'r syniadau a ymddangosodd gyda chysylltiadau allweddol ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru trwy ystod o allbynnau. Mae'r rhain wedi cynnwys cyfres o flogiau a darnau meddwl sylweddol, a 'Digest' wythnosol ar e-bost sy'n crynhoi'r cynnwys sydd wedi'i rannu a phwyntiau o ddiddordeb.

Bydd datblygu'r dull mwy hyblyg hwn at ein rhaglen arfer da yn parhau yn ystod 2021-22 a bydd yn cyd-fynd yn agos â'n rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol, gyda themâu allweddol yn dod i'r amlwg wrth i'r sector cyhoeddus symud i'r cyfnod adfer.

# 5 Ein cyllid

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn craffu ar ein defnydd o adnoddau, gan gynnwys trwy ystyried y Cynllun hwn, ein Hadroddiad Dros Dro a'n Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon.

Daw oddeutu deuparth ein cyllid o ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig yn unol â Chynllun Ffioedd a gymeradwywyd[16] gan y Senedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn cynnwys cyllid a gymeradwywyd o Gronfa Gyfunol Cymru (WCF), y mae ein defnydd ohoni yn destun craffu gan y Bwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn

Mae'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd o adnoddau yn 2021-22 wedi'u nodi yn ein Amcangyfrif Incwm a Threuliau diweddaraf, a gafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2020. Mae £16 miliwn o'n gwariant arfaethedig yn ymwneud ag adnoddau sydd ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei raglen waith[17]. Mae £6 miliwn arall yn darparu ystod o wasanaethau corfforaethol, gan gynnwys llety a gwasanaethau cymorth eraill, megis cyngor cyfreithiol, TGCh ac AD[18].

Nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yr ansicrwydd o ran y cyllid fydd ar gael yn y dyfodol i gyrff cyhoeddus a ariennir yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru yn ei Llythyr ar 11 Awst 2020. Rydym yn ymwybodol iawn o'n cyfrifoldeb i rannau eraill o'r sector cyhoeddus i gadw ein costau gweithredu ein hunain a'r ffioedd a godwn i lawr, ar yr amod nad yw'n peryglu ansawdd archwilio a'r sicrwydd y gallwn ei ddarparu.

O ganlyniad, yn 2021-22 rydym yn lleihau ein galw ar gyllid refeniw Cronfa Gyfunol Cymru o £120,000 ac, i gydnabod y pwysau digynsail sy'n wynebu'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio, nid ydym yn cynyddu cyfraddau'r ffioedd yr ydym yn eu codi ar gyrff archwiliedig.


Mae'r Bwrdd yn adolygu ein perfformiad ariannol bob tro y mae'n cyfarfod trwy gydol y flwyddyn. Bob mis, mae ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn ystyried asesiad risg o'n hiechyd ariannol gyda'r nod o sicrhau gwerth am arian ac alldro diwedd blwyddyn o fewn y gyllideb.


16 Yn dilyn ymarferiad ymgynghori gyda'r cyrff rydym yn eu harchwilio a rhanddeiliaid allweddol eraill.

17 Dyma uchafswm yr adnoddau sydd ar gael, ac a allai ddod ar gael, y rhagwelir y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei ddyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ymgymryd â'i raglen waith.

18 Mae hyn yn cynnwys yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.

# Incwm a gwariant



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg

Ebost: post@archwilio.cymru

www.archwilio.cymru